

**Grŵp Cyngkori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru
Dydd Iau 13 Awst 2020 16:00-17:30**

Trwy Teams.

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb
Aelodau i anfon paragraff ar ddull gweithredu fframwaith moesegol at y dyfodol	Pawb
Heather i weithio gyda Marc i ddatblygu beth nesaf ar gyfer papur asesu.	Heather a Marc
Yr aelodau i ysgrifennu at yr Ysgrifenyddiaeth i bwysu a mesur gwaith y grŵp hyd yn hyn, ble y dylai'r grŵp hwn fynd nesaf a phwy ddylai gael ei gynnwys.	Pawb
Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon dolenni at bob grŵp a gweminar Seneddol.	Ysgrifenyddiaeth

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Alison Mahwinny, Alison Parken, Aled Edwards, Carol Wardman, Emma Bennett, Martin Jones, Ilora Finlay, Idris Baker, Rocio Cifuentes, Marc Davies, Viv Harpwood, Martyn Jones, Emma Williams, Shavanah Taj, Valerie Billingham, Kevin Francis

Nodyn o'r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	<u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u> Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau a nodi ymddiheuriadau. Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Lisa Gerson.
2.	<u>Cofnodion blaenorol</u> Cytunwyd ar y cofnodion. Os bydd gan yr aelodau unrhyw ddiwygiadau pellach dylid eu hanfon at Holly. <u>Camau gweithredu</u> Cytunwyd ar yr holl gamau gweithredu blaenorol ac fe'u cwblhawyd.

3. CMEAG ac asesiadau risg lleoliadau gofal yn ystod adferiad

Cododd Marc Davies y pwyntiau canlynol yn ymwneud ag asesiadau risg:

1. Nid yw deddfwriaeth wrthgyferbyniol o reidrwydd yn cyd-fynd â'i gilydd.
2. Mae fframwaith Moesegol CMEAG yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ystyried ymyriadau a gellid ehangu'r egwyddorion hyn i fod yn gymwys i bob penderfyniad a wneir
3. Mae angen edrych ar ddogfennau moeseg iechyd y cyhoedd cyn Covid a phenderfynu a oes unrhyw egwyddorion eraill ar gael.

Cytunodd y grŵp fod angen sicrhau bod y fframwaith moesegol yn cael ei ddsbarthu mor eang â phosibl. Codwyd ymholiadau ynghylch tensiynau rhwng y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Coronafeirws. Mae dyletswyddau yn y Ddeddf flaenorol wedi'u dileu. Dylid cynnal adolygiad cyn bo hir a'r teimlad oedd bod gan y grŵp hwn rôl i atgoffa'r Llywodraeth a'r sector preifat o rwymedigaethau. Mae llawer o gartrefi gofal yn endidau'r sector preifat, ac mae ystyriaethau ymarferol yn aml yn diystyru ystyriaethau moesegol, ee, cwmnïau yswiriant yn tynnu'r sicrwydd yswiriant yn ôl oni bai bod cartref yn cymhwyso mesurau rheoli heintiau llym, waeth beth fo hawliau preswylwyr

Mynegwyd pryderon ynghylch pobl mewn lleoliadau preswyl ag anabledau dysgu a'r rhai â diffyg eiriolaeth. Mae angen i eiriolaeth gefnogi unigolion a grwpiau buddiant. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch adroddiadau am gartrefi gofal yn atal asesiadau.

Angen sensitifrwydd o ran y Gymraeg wrth ymwneud â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried y bobl yr effeithir arnynt, nid dehongliad llythrennol o'r gyfraith yn unig.

Os bydd ymchwiliad ynghylch y Coronafeirws yn y dyfodol, cytunodd aelodau'r grŵp y byddent am i'r grŵp hwn ddarparu tystiolaeth a bod yn rhan o'r trafodaethau. Ar lefel y DU, mae Grŵp Seneddol Hollbleidiol wrthi'n clywed tystiolaeth ac yn myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd. Mae amrywiaeth o bobl, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael profedigaeth a chartrefi nyrsio, yn rhoi tystiolaeth. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn anfon dolen at yr aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd y Farwnes Finlay y byddai'n gwerthfawrogi unrhyw dystiolaeth o asesiadau aflwyddiannus yn ogystal â llwyddiannau ers Covid y mae angen rhoi sylw iddynt wrth symud ymlaen. Mae gweminar ar gael ar wefan SCIE. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn anfon dolen at yr aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Mae fforwm gofal cymdeithasol wedi'i sefydlu a bydd yn cyfarfod ym mis Medi, sy'n cynnwys cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg yn gyhoeddus ac sy'n cael eu rhedeg yn breifat. Bydd y fforwm hwnnw'n canolbwyntio'n gyntaf ar faterion cyflogaeth ond gall godi materion a danlinlelier yn y papur hwn rywbryd.

Codwyd cwestiynau ynghylch dulliau o ledaenu'r papur ac a ddylid defnyddio llwybrau cyfathrebu amgen fel fforymau cyflogwyr. Holwyd hefyd a fyddai angen gwahanol fersiynau ar gyfer gwahanol gynulleidfaeod.

	<p>Mae gwaith yn cael ei wneud i ystyried y materion ymarferol ynghylch cyfyngiadau lleol a strategaethau profi ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae fforwm iechyd a diogelwch cenedlaethol yn cael ei sefydlu a disgwylir iddo gyfarfod ym mis Medi. Mae canolbwyntio ar undod cymunedol yn bwysig iawn, ac mae'n rhaid cyflawni'r rhain mewn ffordd sy'n sicrhau cydraddoldeb.</p> <p>Mae rhaglen www.nhsconfed.org/NHSreset yn cynnal sesiynau ar wersi a ddysgwyd o bob cwr o'r byd.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau anfon paragraff ysgrifenedig ar bwyntiau a wnaed i'r Ysgrifenyddiaeth.</p> <p>Diolchodd Marc i'r grŵp am eu trafodaeth a chytunodd i ystyried sut i ddefnyddio'r arbenigedd moesegol i adolygu canllawiau, sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn barhaus, ac ymgorffori arbenigedd y grwpiau mewn protocolau eraill.</p>
4.	<p><u>Egwyddorion i seilio blaenoriaethau ar gyfer Imiwneiddio rhag Covid</u></p> <p>Gofynnwyd i'r grŵp ystyried blaenoriaethau'r brechlyn os bydd brechlyn yn llwyddiannus. Gan dybio bod unrhyw frechlyn yn effeithiol ac yn ddiogel, pwy fyddai'r cyntaf i'w gael?</p> <p>Mewn digwyddiad mawr, rhaid i ymatebwyr cyntaf sicrhau eu diogelwch eu hunain yn gyntaf. Yn yr achos hwn, dylid blaenoriaethu staff mewn amgylcheddau gwaith risg uchel.</p> <p>Mynegwyd pryderon ynghylch trefnu bod unrhyw frechlyn ar gael yn breifat gan na ddylai fod ar gael er hwylustod, ond i leihau nifer yr achosion er lles gorau pawb. I'r cyhoedd sydd mewn risg, dylai'r rhai sy'n llai abl i hunanynysu gael blaenoriaeth dros y rhai sy'n gallu hunanynysu yn hirach, waeth beth fo'u hoedran.</p> <p>Mae cydsynio a pherswadio yn fater pwysig i'w ystyried. Mae gwir ddrwgdybiaeth o frechu mewn rhannau o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd angen ystyried hyn ymlaen llaw, yn enwedig effaith anghymesur Covid yn y gymuned hon.</p> <p>Codwyd ymholiadau ynghylch y dulliau cyfathrebu gyda chymunedau penodol, yn enwedig gyda'r bygythiad o sŷon ffug. Mae ymchwil a adroddwyd gan y BBC yn dangos y byddai 50% o boblogaeth y DU yn gwrthod brechlyn Covid. Mae angen tystiolaeth sylfaen gadarn. Bydd gwahaniaeth enfawr o fewn gwahanol gymunedau. Bydd mynediad at wybodaeth yn allweddol. Mae cwestiynau ynghylch y goblygiadau i unigolion sy'n penderfynu peidio â chael eu brechu. Mae materion hefyd yn codi o ran gallu unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus a chydsynio i gael eu brechu. Cytunwyd bod angen eglurder ynghylch "angen", er y cydnabuwyd yr anawsterau wrth bennu tymor agored o'r fath.</p>

	<p>Clywodd yr Uwch Siambr yn Llys Hawliau Dynol Ewrop achos y mis diwethaf ynghylch brechu gorfodol ac Erthygl 8 Bywyd Teuluol a Phreifatrwydd. Disgwylir i'r dyfarniad gael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf ac fe allai hyn roi cymorth.</p> <p>Mae angen ystyried nifer o effeithiau anfwriadol gan gynnwys yr hyn a fyddai'n cyfiawnhau esemptiad. Gall cymdeithas fforddio cael lleiafrif heb ei frechu heb beryglu'r boblogaeth, felly pwy ddylai fod yn gymwys? A ddylem i gyd gael ein trin fel ein gilydd er gwaethaf gwahaniaethau?</p> <p>Byddai dogni yn fater posibl a byddai angen ei fonitro yn y tymor hir. Angen profion ymlaen llaw i ddeall gwrthgyrff.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau a bydd yn ceisio cnoi cil arnynt.</p>
5.	<p><u>Adolygiad o Gylch Gorchwyl CMEAG Cymru a myfyrdodau ar gyfeiriad y dyfodol</u> Codwyd cwestiwn ynghylch a yw'r grŵp hwn yn ymateb i geisiadau neu'n chwilio am feysydd sy'n peri pryder. Hyd yn hyn, mae'r grŵp wedi arddel ymagwedd gytbwys.</p> <p>Pob aelod i ysgrifennu at yr Ysgrifenyddiaeth i fyfyrrio ar waith y grŵp hyd yma, ble y dylai'r grŵp hwn fynd nesaf a phwy sydd angen ei gynnwys.</p>
6.	<p><u>Unrhyw fusnes arall</u> Edrych ar imiwneiddio eto ar yr agenda nesaf.</p> <p><u>Cyfarfod Nesaf</u> Ymhen pythefnos yn ôl y bwriad</p>